Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Gynradd Esceifiog
Y Gaerwen
Ynys Môn
LL60 6DD

05/02/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Ionawr 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Gynradd Esceifiog yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, ystyried dogfennaeth, ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Gwella'r ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau'n adeiladol

- Arfer gyson ar draws yr holl ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn darparu gweithgareddau ysgogol a diddorol i ddisgyblion sy'n ymateb yn llwyddiannus i anghenion unigol, ac sy'n eu herio'n gyson.
- O oedran cynnar, mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddewis heriau priodol yn fwyfwy annibynnol. Pan fydd yn addas, maent yn cynnwys disgyblion yn bwrpasol yn y broses o bennu nodau a meini prawf, sy'n eu cefnogi i wneud cynnydd cyson yn eu medrau.
- Gwna staff ddefnydd effeithiol a chreadigol o'r ystafelloedd dosbarth a'r ardaloedd allanol eang i sbarduno dysgu a darparu cyfleoedd ysgogol i ddisgyblion gymhwyso eu medrau ymhellach.
- Mae arweinwyr a staff yn cyd-gynllunio'n fwriadus i sicrhau bod y ddarpariaeth yn adeiladu'n drefnus ar fedrau a gwybodaeth flaenorol disgyblion dros amser.
- Mae athrawon yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a digidol disgyblion yn fedrus. Mae'r medrau hyn wedi eu plethu'n effeithiol ar draws y

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

meysydd dysgu a phrofiad. Mae hyn yn sicrhau bod y gweithgareddau dysgu'n meddu ar bwrpas clir ac yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion gymhwyso'r medrau hyn yn eu dysgu yn gyson.

- Ers yr arolygiad craidd, mae staff yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddisgyblion feithrin eu medrau ysgrifennu Saesneg yn rheolaidd. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae disgyblion yn ysgrifennu'n gynyddol estynedig mewn ystod o gyd-destunau a ffurfiau perthnasol, gan ddangos gafael sicr ar elfennau iaith.
- Wrth i fedrau'r disgyblion aeddfedu, maent yn datblygu ac yn defnyddio eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol yn gynyddol hyderus.
- Yn ystod sesiynau mathemateg rheolaidd, mae staff yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu ac adnoddau defnyddiol i gymell dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn holi disgyblion yn dreiddgar sy'n eu cefnogi i adalw dysgu blaenorol, i wirio'u dealltwriaeth ac i ymestyn eu hymdrechion pellach yn fuddiol.
- Yn gyffredinol, mae disgyblion yn llwyddo i gymhwyso eu medrau rhif yn briodol i ddatrys problemau mewn gwahanol gyd-destunau pwrpasol. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i gyfoethogi'r ddarpariaeth ymhellach i gynnig mwy o brofiadau cyfarwydd, ac ymestynnol, i ddisgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd mewn cyd-destunau bywyd go iawn.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ystyrlon i staff. Yn ddiweddar, mae staff wedi manteisio ar hyfforddiant defnyddiol i gefnogi gweithredu dull penodol sy'n dyfnhau dealltwriaeth disgyblion o gysyniadau mathemategol. Er ei bod yn dal yn ei chyfnod cynnar, mae'r strategaeth yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau ymresymu'r disgyblion hynaf.

### Sicrhau bod y systemau gwella yn canolbwyntio'n fwy manwl ar werthuso a gwella safonau a chynnydd disgyblion

- Ers yr arolygiad craidd, mae'r pennaeth wedi datblygu systemau gwella cynhwysfawr sy'n gosod blaenoriaeth ystyrlon a chlir ar wella agweddau pwysig o'r ddarpariaeth. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd cyson a gwella eu medrau i safon da.
- Mae'r pennaeth yn cynnwys staff a llywodraethwyr yn bwrpasol yn y prosesau monitro. Mae hyn yn cynnwys craffu rheolaidd ar waith disgyblion a dadansoddi deilliannau cyrhaeddiad, gan roi sylw pendant i grwpiau penodedig er mwyn nodi tueddiadau a meysydd penodol i'w gwella. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at ddwysáu dealltwriaeth staff a llywodraethwyr o gryfderau'r ysgol a'r agweddau pwysicaf i'w gwella yng ngwaith disgyblion.
- Mae'r pennaeth wedi dosrannu cyfrifoldebau arwain i'r staff yn synhwyrol. Mae arweinwyr canol yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rolau o fewn y meysydd dysgu y maent yn gyfrifol amdanynt, ac yn cefnogi athrawon yn effeithiol i ddatblygu

cynlluniau tymhorol pwrpasol, ac i werthuso eu heffaith. Mae'r cydweithio hwn yn cyfrannu'n gadarnhaol at wella'r ddarpariaeth ac at godi safonau'r disgyblion ymhellach.

- Mae disgyblion ar bwyllgorau llais y disgybl yn cyfrannu syniadau buddiol sy'n llywio camau gweithredu synhwyrol o fewn blaenoriaethau gwella cytûn yr ysgol, er enghraifft ffyrdd o gryfhau medrau codio disgyblion ar frig yr ysgol. Ar y cyd â chynllunio gofalus a chreadigol staff, mae hyn wedi cyfrannu'n effeithiol at ddatblygiad cadarn ym medrau digidol disgyblion dros amser.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6602140

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol